| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 7/5/24 | Neb | **Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts, (Cadeirydd) Alwyn Roberts (Is-Gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts<br><br>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc) | Y Cytundeb Glanhau – derbyniwyd argymhelliad yr is-bwyllgor Cyllid i godi gwerth y Cytundeb yn unol a chwyddiant.<br><br>Bydd 3 myfyriwr o Batagonia yn ymweld a Llanuwchllyn ym mis Gorffennaf.<br><br>Bydd ymweliad gan Swyddog Cynllunio Cyngor Gwynedd i ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r mynediad at faes parcio'r Eagles.<br>Mynwent Newydd: Bydd Bethan Edwards yn trafod gyda'r Ymgymerwyr, ond yn y cyfamser bydd yr is-bwyllgor yn cofnodi'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn diogelwch<br>**Derbyniwyd** cynnig gan Parc Cenedlaethol Eryri i dorri'r ddwy am resymau diogelwch a phlannu coed llai eraill yn eu lle<br><br>Cytunwyd i'r taliadau a restrwyd (taliadau o dan Cytundeb)<br><br>**Cynllunio:**<br>NP5/71/338A Adeiladu gweithdy / ystafell beiriannau ynghyd â gwaith allanol cysylltiedig Cae Llwyd Rhydymain – cytunwyd i holi am fwy o fanylion.<br>NP5/53/576 Estyniad i drac Rheilffordd Llyn Tegid – Cymeradwywyd. Nodwyd pryderon lleol am drafnidiaeth ar ffordd gul Ty'n Ddôl a'r angen i'r caffi barhau ar agor yn Llanuwchllyn.<br>NP5/71/L296B Diwygio Amod Rhif 2 (cynlluniau wedi eu cymeradwyo) o Ganiatâd Cynllunio NP5/71/L296A o ffenestr to edrychiad ffrynt i ffenestr dormer yn 1 Coed y Lôn, Llanuwchllyn. LL23 7ST – Dim sylw.<br><br>**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 4/6/24 yn y Neuadd Bentref am 7.30pm |